**Y Pwyllgor Deisebau**
**Petitions Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ein cyfeirnod: P-04-410

31 Hydref 2012

**Deiseb: Cofeb Barhaol i Weithwyr Cymru**

Annwyl Syr/Madam

Fel y gwyddoch, efallai, mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bodoli i ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy sy'n cael eu cyflwyno gan aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

Yn ddiweddar, cyflwynwyd y ddeiseb a ganlyn i'r Pwyllgor Deisebau gan Sefydliad Bevan:

*Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ariannu, naill ai'n uniongyrchol neu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, gofeb barhaol i weithwyr.*

*Bu farw un ar ddeg o bobl wrth eu gwaith y llynedd yng Nghymru. Mae marw ac anafiadau'n amlwg iawn yn hanes Cymru. Roedd y trychineb ym mhwll Gleision y llynedd yn ein hatgoffa o erchyllterau'r gorffennol. Ac eto, er gwaethaf y ffordd mae marwolaethau gweithwyr wedi llunio gorffennol Cymru, ac yn parhau hyd yn oed heddiw, ychydig iawn sydd i ddangos ein bod yn cofio amdanynt. Nododd rhai undebau llafur Ddiwrnod Rhyngwladol Cofio Gweithwyr drwy gynnal raliïau, ac yn y blaen, ond diwrnod yn unig oedd hwnnw, a ddaeth i*

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8393
E-bost / Email: William.powell@cymru.gov.uk

*ben ac a anghofiwyd yn fuan. Mae'n sicr yn bryd cael cofeb barhaol er cof am holl weithwyr Cymru. Mae cofebau ar safle rhai o drychinebau'r gorffennol, fel Senghennydd a Gresffordd, ond nid oes dim i nodi bywydau nifer o weithwyr eraill a fu farw wrth eu gwaith. Byddai cofeb barhaol i weithwyr yn dangos ein parch at yr holl weithwyr hyn, a byddai hefyd yn llesol ein hatgoffa o bwysigrwydd iechyd a diogelwch, sy'n cael eu difrïo'n gyffredinol.*

*Mae'n bum mlynedd eleni ers cael Deddf Dynladdiad Corfforaethol 2007 – byddai'n braf iawn gweld Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi eleni ei bod am sefydlu cofeb barhaol i'w datgelu yn 2014, sef 40 mlynedd ers cael y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Elusen annibynnol yw Sefydliad Bevan (rhif 104191) sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn newid Cymru drwy waith ymchwil a dadlau yn ein cyhoeddiadau a'n digwyddiadau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.bevanfoundation.org.*

Yn ystod ei gyfarfod ar 2 Hydref, cytunodd y Pwyllgor i wneud gwaith ar destun y ddeiseb hon.

Fel cam cyntaf, hoffwn ofyn i bartion sydd â diddordeb a fyddent yn cefnogi'r syniad o adeiladu cofeb o'r fath ac, os felly, ar ba ffurf. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau ynghylch safleoedd posibl ar gyfer y gofeb, yn ogystal ag unrhyw sylwadau eraill sydd gan rhanddeiliaid ar y mater hwn. Byddem hefyd yn ddiolchgar am unrhyw awgrymiadau ynghylch ffynonellau cyllid y gellid ymchwilio iddynt er mwyn cefnogi'r gwaith o adeiladu'r gofeb.

Anfonwch eich ymatebion at Glerc y Pwyllgor erbyn 12 Rhagfyr 2012, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Naomi.stocks@cymru.gov.uk.

Yn gywir

William Powell

**William Powell**
**Cadeirydd y Pwyllgor**